OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 Rhif 3470 (Cy.56)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *22 Rhagfyr 1999* |
| *Yn dod i rym* | - - | *23 Rhagfyr 1999* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 2(2) a (4) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) fel y'i hestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), a freiniwyd ynddo bellach(**3**):

### Enwi, chychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 23 Rhagfyr 1999.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Diwygiadau

**2.**—(1) Diwygir y ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996(**4**)) fel a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn;

(2) Diwygir y ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998(**5**) fel a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1996 p.53. Am ddiffiniad o “prescribed” gweler adran 101 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) Gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**4**) O.S. 1996/2891; diwygiwyd gan O.S. 1997/978, 1998/809 a 1999/1607.
(**5**) O.S. 1998/1113; diwygiwyd gan O.S. 1999/2316

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*Dafydd Elis Thomas*

22 Rhagfyr 1999

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.

## ATODLEN 1

**Rheoliad 2**

DIWYGIADAU I'R FFURFLEN SY'N DWYN Y TEITL "OWNER-OCCUPIER'S AND TENANT'S APPLICATIONS FOR HOUSING RENEWAL GRANTS"

**1.** Yng nghwestiwn 3.9, yn y rhan ynglŷn â lwfans gweithio i'r anabl, yn lle "Disability working allowance" rhodder "Disabled person's tax credit (previously known as disability working allowance)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Note 54A**".

**2.** Ar ddiwedd cwestiwn 3.23, hepgorer "(if less than 16 hours per week)".

**3.** Yng nghwestiwn 3.29 —

(a) yn y rhan ynglŷn â lwfans gweithio i'r anabl, yn lle "Disability working allowance" rhodder "Disabled person's tax credit (previously known as disability working allowance )" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Note 54A**";

(b) yn y rhan ynglŷn â chredyd teulu, yn lle "Family credit" rhodder "Working families' tax credit (previously known as family credit)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Note 84B**".

**4.** Yn lle cwestiwn 3.37, rhodder —

"**3.37** Do you pay, or have you during the last 12 months paid, for the care of any child named in question **3.15** who is not disabled and who is either under the age of 15 years or has (or had) not reached the first Monday in September following his 15th birthday?

| | | |
|---|---|---|
| | | **Notes 93 & 93A** |
| Yes | □ | |
| No | □ | |

**3.37A** Do you pay, or have you during the last 12 months paid, for the care of any child named in question **3.15** who is disabled and who is either under the age of 16 years or has (or had) not reached the first Monday in September following his 16th birthday?

| | | |
|---|---|---|
| | | **Notes 93 & 93A** |
| Yes | □ | |
| No | □ | |

If you have answered "Yes" to either question **3.37** or **3.37A**, please go to question **3.38**.

If you have answered "No" to both questions **3.37** and **3.37A**, please go to the **Declaration** at the end of this **Part**."

**5.** Yng nghwestiwn 3.38 —

(a) yn lle'r is-baragraff sy'n dechrau gyda'r geiriau "The care is provided out of school hours", rhodder —

"The care is provided out of school hours by a school on school premises or by a local authority, and the charge relates to a period beginning on the child's 8th birthday and ending in the case of a child who is not disabled on the day before the first Monday in September, following his 15th birthday;";

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw, mewnosoder —

"The care is provided out of school hours by a school on school premises or by a local authority, and the charge relates to a period beginning on the child's 8th birthday and ending in the case of a child who is disabled on the day before the first Monday in September following his 16th birthday;"

**6.** Ar ôl nodyn 54, mewnosoder —

"**54A.** Include any payment in accordance with an award of disability working allowance which was awarded with effect from a date falling before 5th October 1999. From 5th October 1999 disability working allowance is to be known as disabled person's tax credit.".

**7.** Ar ôl nodyn 84A, mewnosoder —

"**84B.** Include any payment in accordance with an award of family credit which was awarded with effect from a date falling before 5th October 1999. From 5th October 1999 family credit is to be known as working families' tax credit.".

**8.** Ar ôl nodyn 93, mewnosoder —

"**93A.** A child is disabled for the purposes of questions **3.37, 3.37A** and **3.38** if he is registered as blind in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948 (welfare services) or, in Scotland has been certified as blind and in consequence he is registered as blind in a register maintained by or on behalf of a local authority in Scotland or he ceased to be registered as blind in such a register within the 28 weeks immediately preceding the date of claim. A child is also disabled for the purposes of these questions if he is paid disability living allowance, or he was paid disability living allowance until he became a patient.".

**9.** Yn nodyn 95(1)(a), yn lle "disability working allowance" rhodder "disabled person's tax credit (previously known as disability working allowance)".

## ATODLEN 2

**Rheoliad 2**

DIWYGIADAU I'R FFURFLEN SY'N DWYN Y TEITL "CEISIADAU PERCHEN-FEDDIANNYDD A THENANT AM GRANTIAU ADNEWYDDU TAI"

**1.** Yng nghwestiwn 3.9, yn y rhan ynglŷn â lwfans gweithio i'r anabl, yn lle "Lwfans gweithio i'r anabl" rhodder "Credyd treth i berson anabl (a elwid gynt yn lwfans gweithio i'r anabl)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Nodyn 54A**".

**2.** Ar ddiwedd cwestiwn 3.23, hepgorer "(os yw'n llai nag 16 awr yr wythnos).".

**3.** Yng nghwestiwn 3.29 —

(a) yn y rhan ynglŷn â lwfans gweithio i'r anabl, yn lle "Lwfans gweithio i'r anabl" rhodder "Credyd treth i berson anabl (a elwid gynt yn lwfans gweithio i'r anabl)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Nodyn 54A**";

(b) yn y rhan ynglŷn â chredyd teulu, yn lle "Credyd teulu" rhodder "Credyd treth i deuluoedd mewn gwaith (a elwid gynt yn gredyd teulu)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Nodyn 84B**".

**4.** Yn lle cwestiwn 3.37, rhodder —

"**3.37** Ydych chi'n talu, neu ydych chi wedi talu yn ystod y 12 mis diwethaf, am ofal unrhyw blentyn a enwir yng nghwestiwn **3.15** nad yw'n anabl ac sydd naill ai o dan 15 oed

neu sydd (neu oedd) heb gyrraedd y dydd Llun cyntaf ym Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn 15 oed?

| | | **Nodiadau 93 a 93A** |
|---|---|---|
| Ydw | □ | |
| Nac ydw | □ | |

**3.37A** Ydych chi'n talu, neu ydych chi wedi talu yn ystod y 12 mis diwethaf, am ofal unrhyw blentyn a enwir yng nghwestiwn **3.15** sy'n anabl ac sydd naill ai o dan 16 oed neu sydd (neu oedd) heb gyrraedd y dydd Llun cyntaf ym Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn 16 oed?

| | | **Nodiadau 93 a 93A** |
|---|---|---|
| Ydw | □ | |
| Nac ydw | □ | |

Os ydych wedi ateb "Ydw" naill ai i gwestiwn **3.37** neu **3.37A**, ewch at gwestiwn **3.38**.

Os ydych wedi ateb "Nac ydw" i'r ddau gwestiwn **3.37** a **3.37A**, ewch at y **Datganiad** ar ddiwedd y **Rhan** hon."

**5.** Yng nghwestiwn 3.38 —

(a) yn lle'r is-baragraff sy'n dechrau gyda'r geiriau "Mae'r gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i oriau ysgol", rhodder —

"Mae'r gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i oriau ysgol gan ysgol ar safle ysgol neu gan awdurdod lleol, ac mae'r tâl ar gyfer cyfnod sy'n cychwyn ar wythfed penblwydd y plentyn ac yn gorffen mewn achos plentyn nad yw'n anabl ar y dydd cyn y dydd Llun cyntaf ym Medi, yn dilyn penblwydd y plentyn yn 15 oed;".

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw, mewnosoder —

"Mae'r gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i oriau ysgol gan ysgol ar safle'r ysgol neu gan awdurdod lleol, ac mae'r tâl ar gyfer cyfnod sy'n cychwyn ar wythfed penblwydd y plentyn ac yn gorffen mewn achos plentyn sy'n anabl ar y dydd cyn y dydd Llun cyntaf ym Medi, yn dilyn penblwydd y plentyn yn 16 oed;".

**6.** Ar ôl nodyn 54, mewnosoder —

"**54A.** Cynhwyswch unrhyw daliad sy'n unol â dyfarniad lwfans gweithio i'r anabl a ddyfarnwyd gydag effaith o ddyddiad sy'n dod cyn 5 Hydref 1999. O 5 Hydref 1999 ymlaen caiff lwfans gweithio i'r anabl ei adnabod fel credyd treth i berson anabl.".

**7.** Ar ôl nodyn 84A, mewnosoder —

"**84B.** Cynhwyswch unrhyw daliad sy'n unol â dyfarniad o gredyd teulu a ddyfarnwyd gydag effaith o ddyddiad sy'n dod cyn 5 Hydref 1999. O 5 Hydref 1999 ymlaen caiff lwfans credyd teulu ei adnabod fel credyd treth i deuluoedd mewn gwaith.".

**8.** Ar ôl nodyn 93, mewnosoder —

"**93A.** Mae plentyn yn anabl at ddibenion cwestiynau 3.37, 3.37A, 3.38 os yw wedi'i gofrestru'n ddall ar gofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (gwasanaethau lles) neu, yn yr Alban, os ardystiwyd ei fod yn ddall ac o ganlyniad i hynny mae wedi'i gofrestru'n ddall ar gofrestr a gynheli neu ar ran awdurdod lleol yn yr Alban neu a beidiodd â chael ei gofrestru'n ddall mewn cofrestr o'r fath o fewn 28 wythnos yn union cyn

dyddiad y cais. Mae plentyn yn anabl at ddibenion y cwestiynau hyn hefyd os telir lwfans byw i'r anabl iddo, neu os talwyd lwfans byw i'r anabl iddo hyd nes iddo fynd yn glaf.”.

**9.** Yn nodyn 95(1)(a), yn lle “lwfans gweithio i'r anabl” rhodder “credyd treth i berson anabl (a adwaenid gynt yn lwfans gweithio i'r anabl)”.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio :

(a) y Ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996, i'w defnydddio gan berchen-feddianwyr a thenantiaid wrth wneud cais am grantiau adnewydddu tai o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996; a

(b) y Ffurflen Gymraeg sy'n cyfateb â hi a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 1998.

Mae'r diwygiadau gan fwyaf yn dilyn y rheiny a wneir gan y Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/3468) i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (O.S.1996/2890). Mae mân ddiwygiadau a diwygiadau drafftio hefyd.